

Adfer yn dilyn COVID-19

Ardaloedd Masnachu Dros Dro ar gyfer Bwyd a Diod

Amodau a Thelerau Bro Morgannwg

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi cyflwyno Amodau a Thelerau dros dro ar gyfer darparu Ardaloedd Masnachu Bwyd a Diod ar dir priffyrdd, a fydd mewn grym rhwng 27 Gorffennaf 2020 ac 1 Hydref 2020, yn unol â chanllawiau a deddfwriaeth Covid gyfredol y DU, fel a ganlyn.

1. Bydd pob trwydded bresennol ar gyfer Ardal Fasnachu neu Gaffi Stryd ar dir priffyrdd neu fannau eraill, y cytunwyd arnynt yn flaenorol ac sydd yn bodoli, yn dod i ben dros dro o 31 Mawrth 2020 hyd nes y ceir rhybudd pellach.
2. Ni chaniateir ardaloedd masnachu dros dro ar gyfer bwyd a diod heblaw ar gyfer caffis, tai bwyta, tafarndai neu sefydliadau arlwyo eraill sydd yn gweini bwyd a diod o fewn eu safle.
3. Mae'n rhaid i'r gweithgareddau sy'n digwydd y tu allan gydymffurfio ag amodau a thelerau trwydded fasnachu'r safle sef trwydded y busnes sy'n gwneud y cais. Ni chaniateir gwneud cais ar y cyd â neb arall.
4. Mae'n rhaid i unrhyw ardal fasnachu neu le tu allan a ddyrennir dros dro fod yn gymesur â maint presennol y busnes ac unrhyw le sydd y tu mewn i safle'r busnes.
5. Lle cânt eu cymeradwyo, ni fydd unrhyw rwystrau, ffensiau, palisau, dodrefn neu unrhyw offer arall yn cael eu rhoi ar y briffordd heblaw y tu mewn i'r ardal gytunedig sydd wedi ei thrwyddedu a bydd yr ardal honno wedi'i marcio allan â phaent chwistrellu gan y Cyngor neu gynrychiolydd dynodedig y Cyngor.
6. Yr amserau a ganiateir ar gyfer gweithredu mewn unrhyw le y tu allan fydd rhwng 8am a 10pm bob dydd yn unig fel rheol (efallai y gosodir cyfyngiadau lleol yn ôl y lleoliad a'r amgylchiadau penodol). Ni chaniateir cadw unrhyw offer ar y briffordd y tu allan i'r oriau gweithredu cytunedig.
7. Rhaid cydymffurfio bob amser ag is-ddeddfau'r Cyngor a'i Orchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (lle bo'n berthnasol) yn ogystal â phob polisi a safon berthnasol arall, am resymau iechyd a diogelwch ac i warchod yr amgylchedd.
8. Pan fyddant yn masnachu bydd yn ofynnol i safleoedd weithredu bob amser oddi mewn i'r lle a ddyrannwyd ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio'n llwyr â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ailagor busnesau Twristiaeth a Lletygarwch yn raddol.
9. Bydd pob busnes sydd â thrwydded i werthu alcohol yn gyfrifol am sicrhau na fydd neb yn yfed y tu allan i'r ardal drwyddedig a farciwyd ar eu cyfer, yn unol â chymal 5 uchod.
10. Ni chaniateir i'r ffin dros dro sy'n cael ei chreu ar gyfer unrhyw ardal a ddyrennir effeithio ar nac ymyrryd â mesurau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol diogel yn sgil unrhyw lwybr cyhoeddus neu heol gyfagos, fel sydd yn ofynnol i gydymffurfio'n rhesymol â chanllawiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.
11. Fel rhan o'r broses ar gyfer gwneud cais, rhaid i berchennog y busnes gyflwyno manylion digonol ar ffurf addas, gan gynnwys cynlluniau fel y bo angen, er mwyn dangos sut y gellir rheoli a nodi ffiniau unrhyw le tu allan a gaiff ei ddyrannu dros dro fel y bodlonir yn ddiogel y gofynion ar gyfer cadw pellter cymdeithasol diogel.

12. Ni ystyrir ac ni chaniateir caniatâd ar gyfer ardal fasnachu dros dro na lle neilltuedig y tu allan os bydd hyn yn cael effaith andwyol ar gynlluniau adfer Canol Trefi y Cyngor neu os byddant yn gwrthdaro â'r cynlluniau hynny.
13. Ni chaniateir cerddoriaeth na darlledu unrhyw fath o ddigwyddiad yn gyhoeddus ar unrhyw adeg o fewn yr ardal fasnachu dros dro a gymeradwywyd neu'r lle neilltuedig y tu allan.
14. Ystyrir a ddylid cymeradwyo dyrannu unrhyw ardal fasnachu dros dro neu le neilltuedig y tu allan gan 'Banel Caniatáu' o swyddogion perthnasol, a fydd yn ystyried pob cais ac yn rhoi pob trwydded newydd. Bydd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd (y swyddog awdurdodi) a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn awdurdodi pob trwydded dros dro. Mae penderfyniad y swyddog awdurdodi yn derfynol.
15. Pan ganiateir unrhyw ardal fasnachu dros dro neu le neilltuedig y tu allan ar gyfer bwyd a diod, nid yw hynny'n golygu nad oes gan neb arall hawl i fynd i'r ardal. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gael mynediad i'r ardal ar gyfer glanhau, trwsio a chynnal y briffordd neu ddodrefn stryd. Gan hynny mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i atal y caniatâd dros dro os bydd hynny'n angenrheidiol am unrhyw reswm ac er mwyn hwyluso mynediad mewn argyfwng ar gyfer Ymgymeryw Statudol fel y gallant gynnal a thrwsio eu hoffer.
16. Bydd yr holl ffioedd ar gyfer gwneud cais a thrwyddedu unrhyw ardal fasnachu dros dro neu le neilltuedig y tu allan yn cael ei hepgor rhwng 27 Gorffennaf 2020 ac 1 Hydref 2020 er mwyn helpu caffis a thai bwyta ac ati yn ystod y cyfnod adfer. Y busnes sydd yn gwneud y cais fydd yn talu pob cost yn gysylltiedig â chydymffurfio â'r amodau a'r telerau ar gyfer sefydlu a chynnal lle neilltuedig y tu allan.
17. Rhaid i'r ymgeisydd ysgubo'r holl le neilltuedig y tu allan a sicrhau nad oes yno unrhyw sbwriel. Os collir bwyd a diod neu os caiff rhywbeth ei dorri, yn enwedig gwydr a llestri, dylid glanhau a chlirio yn syth. Dylid golchi i lawr yn drylwyr y ardal fasnachu dros dro ar gyfer bwyd a diod ar ddiwedd pob diwrnod masnachu ac mae'n rhaid clirio pob bonyn sigarét a adawyd ar ôl.
18. Rhaid i bob dodrefn a ddefnyddir mewn ardal fasnachu dros dro ar gyfer bwyd a diod fod yn ddiogel ac mewn cyflwr da, wedi'i ddylunio ar gyfer defnydd masnachol ac yn cydymffurfio â:
- BS EN 16139:2013 Lefel profi 1 – 'Dodrefn – gofynion cryfder, hirbarhad a diogelwch ar gyfer seddi annomestig'.
 - BS EN 15372:2008 Lefel profi 2 – 'Dodrefn – gofynion cryfder, hirbarhad a diogelwch ar gyfer byrddau annomestig'.
19. Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu pob rhwystr, ffens neu balis dros dro a ddefnyddir i gau i mewn neu nodi ffiniau'r ardal fasnachu dros dro neu le neilltuedig y tu allan. Rhaid iddynt fod yn rhai cludadwy gyda rheiliau tapio ac addasiadau priodol i ofalu am ddiogelwch pobl anabl. Rhaid iddynt fod yn sefydlog a chadarn, heb ddarnau'n ymwithio allan ac ni ddylent fod ag unrhyw hysbyseb arnynt heblaw am enw'r busnes sy'n dal y drwydded. Ni chaniateir eu defnyddio i hysbysebu gwasanaethau neu gynnyrch a werthir.
20. Dylid sicrhau bod parasolau, pan gânt eu hagog, wedi'u gosod yn ddiogel, gan eu cadw'n gyfan gwbl o fewn ffiniau'r lle neilltuedig y tu allan neu'r ardal fasnachu dros dro, heb unrhyw ran yn ymwithio y tu allan i'r ffiniau a farciwyd, er mwyn sicrhau nad ydynt yn achosi rhwystr neu berygl.
21. Ni ddylai'r allanfeydd argyfwng o'ch adeilad chi eich hun ac adeiladau cyfagos gael eu rhwystro gan yr ardal fasnachu dros dro neu le neilltuedig y tu allan, ac mae'n rhaid i gerbydau'r gwasanaethau brys gael mynediad ar hyd pob stryd bob amser, hyn yn oed mewn strydoedd neu ardaloedd sydd wedi eu cau i draffig.

22. Cymerir i ystyriaeth anghenion defnyddwyr eraill y briffordd e.e. cerddwyr, masnachwyr, busnesau cyfagos, pan ystyrir unrhyw ardal fasnachu dros dro neu le neilltuedig y tu allan. Bydd galluogi pobl i ddefnyddio troedffyrdd neu ardaloedd a neilltuwyd i gerddwyr mewn modd diogel yn cael blaenoriaeth dros unrhyw gais am ardal fasnachu dros dro neu le neilltuedig y tu allan pan ystyrir ceisiadau.
23. Fel rheol dylai'r ardal fasnachu dros dro neu le neilltuedig y tu allan ar gyfer bwyd a diod fod yn union y tu blaen i'r adeilad a dylid gallu ei weld o brif safle'r busnes, neu dylid gallu goruchwyllo staff oddi yno trwy gydol yr amser y bydd bwyd a diod yn cael ei weini.
24. Bydd yn ofynnol i'r unigolyn sy'n gyfrifol ym mhob safle am yr ardal fasnachu dros dro ar gyfer bwyd a diod (sef y sawl sy'n llofnodi er mwyn cydsynio i'r amodau hyn) indemnio'r Cyngor yn erbyn pob gweithred, galwad, cost, taliadau neu dreuliau sydd yn codi yn sgil defnyddio'r briffordd o dan y caniatâd a roddir.
25. Mae angen rhoi gwybod i Adran y Priffyrdd yn syth am unrhyw ddiffyg neu ddifrod i'r Briffordd, beth bynnag fo'r achos. Gellir codi ar y busnes gost trwsio unrhyw ddifrod i wyneb y briffordd neu ddodrefn stryd a achosir oherwydd unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â gweithgaredd yr ardal fasnachu dros dro ar gyfer bwyd a diod. Gan hynny bydd y Cyngor yn mynnu bod y trwyddedai yn dangos tystiolaeth fod ganddo yswiriant atebolrwydd cyhoeddus trydydd parti addas gwerth £5,000,000 o leiaf.
26. Bydd y Cyngor yn cynnal archwiliadau o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau y cedwir at holl amodau a telerau'r ardal fasnachu dros dro ar gyfer bwyd a diod.
27. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i atal neu dynnu'n ôl unrhyw ganiatâd neu drwydded yn gysylltiedig ag ardaloedd masnachu dros dro neu le neilltuedig y tu allan os bydd busnesau'n torri'r amodau a'r telerau hyn neu unrhyw gytundeb trwydded, heb rybudd na hawl i apelio a heb unrhyw gyfle i ailymgeisio tan 1 Hydref 2020.
28. Ni oddefir ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn nac yn gysylltiedig ag unrhyw ardal fasnachu dros dro neu le neilltuedig y tu allan a bydd ymddygiad o'r fath hefyd yn golygu bod unrhyw ganiatâd neu drwydded yn cael ei hatal neu ei thynnu'n ôl heb rybudd na hawl i apelio a heb unrhyw gyfle i ailymgeisio tan 1 Hydref 2020.
29. Os ydych yn dymuno gweini alcohol i'w yfed yn yr ardal fasnachu dros dro ar gyfer bwyd a diod, bydd arnoch angen trwydded safle sy'n caniatáu gwerthu ODDI AR y safle ac yfed yn yr ardal ddiffiniedig honno. Gellir gwneud cais am drwydded safle neu am amrywiad i drwydded drwy yr awdurdod trwyddedu lleol.
30. Trwy gydsynio i'r amodau hyn, ni ellir hawlio'r un darpariaethau os gwneir cais am drwydded caffi stryd yn y dyfodol. Bydd angen trwydded o'r fath yn y dyfodol er mwyn cael masnachu ar y briffordd unwaith y daw'r mesurau dros dro yn yr amodau a'r telerau hyn i ben. Rhoddir rhybudd digonol pan fydd angen gwneud cais am drwyddedau o'r fath (gan nodi'r cyfnod ymgynghori perthnasol) cyn i'r mesurau dros dro hyn ddod i ben.
31. Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn symud unrhyw ddodrefn sydd ar y Briffordd Gyhoeddus wedi i'r cytundeb ddod i ben. O dan Adran 137 Deddf Priffyrdd 1980, os bydd unrhyw unigolyn, heb awdurdod neu esgus cyfreithlon, yn rhwystro yn fwriadol symudiad rhwydd ar hyd priffordd yna mae'n euog o drosedd a gall gael dirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.
32. Gall yr amodau a'r telerau hyn amrywio yn unol â newidiadau sy'n digwydd o ran amgylchiadau, deddfwriaeth neu ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru a pholisïau a gweithdrefnau Bro Morgannwg ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod cytunedig y drwydded.

33. Yn amodol ar dderbyn caniatâd ar gyfer unrhyw ardal fasnachu dros dro neu le neilltuedig y tu allan gan y swyddog awdurdodi, bydd yn ofynnol i bob busnes lofnodi datganiad yn cydsynio i dderbyn amodau a thelerau'r drwydded fel y bo'n briodol.